



Heddlu De Cymru

**Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn ymrwymo i anrhydeddu
Cyfamod y Lluoedd Arfog a chefnogi'r Lluoedd Arfog Cymunedol.
Cydnabyddwn y gwerth y mae Aelodau o'r Lluoedd Arfog,
yn Aelodau Rheolaidd ac Wrth Gefn, Cyn-filwyr a theuloedd
milwrol yn cyfrannu at ein busnes a'n gwlad.**

Llofnodwyd ar ran:

Heddlu De Cymru

Llofnod:

Jeremy M Vaughan

Prif Gwnstabl

Dyddiad:

Llofnod:

Y Gwir Anrh Alun Michael YH FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

Dyddiad:



Cyfamod y Lluoedd Arfog

Cyfamod Parhaol Rhwng

Pobl y Deyrnas Unedig
Llywodraeth Ei Mawrhydi

- a -

Phawb sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Goron

A'u teuluoedd

Dyletswydd gyntaf y Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas. Mae ein Lluoedd Arfog yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw ar ran y Llywodraeth, gan aberthu ambell i ryddid sifilaidd, wynebu perygl ac weithiau, ddioddef anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i'w dyletswydd. Mae teuluoedd hefyd yn chwarae rhan hollbwysig o ran cefnogi effeithiolrwydd gweithredol ein Lluoedd Arfog. I gydnabod hyn, mae gan y genedl gyfan rwymedigaeth foisol i aelodau Gwasanaeth y Llynges, y Fyddin a'r Awyrlu Brenhinol, ynghyd â'u teuluoedd. Maent yn haeddu ein parch a'n cefnogaeth ac i gael eu trin yn deg.

Ni ddylai'r rhai sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, boed fel aelod Rheolaidd neu Wrth Gefn, y rhai sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, na'u teuluoedd, fod o dan unrhyw anfantais o gymharu â dinasyddion eraill o ran y gwasanaethau cyhoeddus a masnachol a ddarperir iddynt. Mae ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd wedi rhoi fwyaf, fel y rhai sydd wedi'u hanafu a'r rhai sy'n galaru.

Mae'r rhwymedigaeth hon yn cynnwys y gymdeithas gyfan: mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennol, sefydliadau preifat, a chmau gweithredu unigolion i gefnogi'r Lluoedd Arfog. Mae cydnabod y rhai sydd wedi cyflawni dyletswyddau milwrol yn uno'r wlad ac yn dangos gwerth eu cyfraniad. Nid oes ffordd well o fynegi hyn na thrwy gynnal y Cyfamod hwn.

Adran 1: Egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog

1.1 Drwy ein trafodion busnes, byddwn ni yn **Heddlu De Cymru** yn ymdrechu i gynnal egwyddorion allweddol Cyfamod y Lluoedd Arfog, sef:

- *ni ddylai'r un aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog fod o dan anfantais o ran y gwasanaethau cyhoeddus a masnachol a ddarperir iddynt o gymharu ag unrhyw ddinesydd arall*
- *gall triniaeth arbennig fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd wedi'u hanafu neu sy'n galaru.*

Adran 2: Dangos ein Hymrwymiad

2.1 Cydnabyddwn werth aelodau o'r Lluoedd Arfog, milwyr wrth gefn, cyn-filwyr a theuluoedd milwrol i'n busnes ac i'n gwlad. Byddwn yn ymdrechu i gynnal egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog, drwy wneud y canlynol:

- **Hyrwyddo'r Lluoedd Arfog:** hyrwyddo'r ffaith ein bod yn sefydliad cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog, a hynny i'n staff, cwsmeriaid, cyflenwyr, contractwyr a'r cyhoedd ehangach. Mae gennym hyrwyddwyr Lluoedd Arfog drwy'r sefydliad i gyd. Mae gennym bolisi milwyr wrth gefn a byddwn yn mynd ati i annog y defnydd ohono.
- **Cyn-filwyr:** helpu i gyflogi cyn-filwyr, gweithio gyda'r Barneriaeth Newid Gyrfa (CTP) er mwyn helpu i gyflogi'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog.
- **Gwŷr a Gwragedd a Phartneriaid aelodau o'r Lluoedd Arfog:** helpu i gyflogi gwŷr a gwragedd a phartneriaid aelodau o'r Lluoedd Arfog. Creu partneriaeth â [fforwm Forces Families Jobs](#) a datblygu dull o rannu swyddi gwag â www.recruitforspouses.co.uk. At hynny, ein nod yw cynnig hyblygrwydd, lle y bo modd, wrth roi caniatâd i wŷr a gwragedd a phartneriaid aelodau o'r Lluoedd Arfog fod yn absennol cyn, yn ystod ac ar ôl i bartner ymfyddino. Mae gan Heddlu De Cymru bolisi milwyr wrth gefn sy'n cefnogi hyn.
- **Milwyr Wrth Gefn:** cefnogi ein cyflogeion sy'n aelodau o'r Lluoedd Arfog Wrth Gefn; caniatáu absenoldeb arbennig ar gyfer hyfforddiant blynyddol y Lluoedd Arfog Wrth Gefn; cefnogi unrhyw symudiadau ac ymfyddino.
- **Digwyddiadau Cenedlaethol:** cefnogi Diwrnod y Lluoedd Arfog, Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn, Diwrnod Apêl y Pabi a gweithgareddau'r Cofio.
- **Elusennau'r Lluoedd Arfog:** cefnogi elusennau'r Lluoedd Arfog i godi arian a chefnogi staff sy'n gwirfoddoli i helpu.
- **Gwarantu Cyfweiliadau:** cefnogi'r holl bobl sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Goron (o fewn 5 mlynedd o adael y Lluoedd Arfog) os ydynt yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y rôl.

(Ar gyfer rolau Cwnstabl yr Heddlu, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Chwnstabl Gwirfoddol, bydd lle yn cael ei warantu yn y Ganolfan Asesu ar ôl i ymgeiswyr lwyddo yn yr Holiadur Arddull Ymddygiadol a'r Prawf Barnu Sefyllfa).

- **Diwrnod y Lluoedd Arfog:** Anelu at gymryd rhan weithgar yn Niwrnod y Lluoedd Arfog.
- **Diwrnod y Cofio:** anelu at gymryd rhan weithgar yn Niwrnod y Cofio.

2.2 Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymrwymïadau hyn drwy ein deunydd darllen a/neu ar ein gwefan, gan nodi sut y byddwn yn ceisio eu hanrhydeddu ac yn gwahodd adborth gan gymuned y Lluoedd Arfog a'n cwsmerïaid ar sut rydym yn ei wneud.